BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

# Arolwg o'r Gymraeg fel Ail Iaith yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 a'r Cyfnod Pontio

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales
*... Rhagoriaeth i bawb ... Excellence for all ...*

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2004. Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r adroddiad hwn at ddibenion anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW

Ffôn: 029 2044 6446
Ffacs: 029 2044 6448

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**1. Cyflwyniad** 1

**2. Prif ganfyddiadau** 2

**3. Argymhellion** 4

**4. Arfer dda yn y Gymraeg fel ail iaith** 5

4.1 Trefniadau pontio effeithiol rhwng addysg gynradd ac uwchradd 5

4.1.1 Polisïau pontio effeithiol 5

4.1.2 Cynllunio ar y cyd 6

4.1.3 Rhannu arbenigedd 9

4.1.4 Addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 9

4.1.5 Trosglwyddo a defnyddio data 11

4.1.6 Gweithgareddau allgyrsiol i hyrwyddo cysylltiadau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd 13

4.1.7 Cymraeg fel ail iaith a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu 14

**5. Rheoli gwelliant** 20

5.1 Monitro ac arfarnu effeithiol 20

5.1.1 Strategaethau monitro a gwella effeithiol 21

5.1.2 Arsylwi yn y dosbarth 21

**6. Canfyddiadau arolygiadau Adran 10 Estyn ar safonau ac ansawdd yn ystod y tair blynedd diwethaf** 22

**7. Y nodweddion da a’r diffygion mewn safonau cyflawniad mewn Cymraeg fel ail iaith** 25

**8. Sylwadau i gloi** 27

# 1. Cyflwyniad

Yn ei adolygiad o'i bolisi iaith Gymraeg, **Ein Hiaith: Ei Dyfodol,** mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi, er mwyn codi safonau dwyieithrwydd:

- 'dylai ysgolion ystyried ffyrdd o wella safonau mewn Cymraeg fel ail iaith'; a
- 'dylai ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg ddatblygu polisïau i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy fel cyfrwng dysgu mewn pynciau penodol'.

Cynhaliwyd yr arolwg hwn o arfer mewn Cymraeg fel ail iaith fel rhan o gylch gorchwyl blynyddol Estyn ar gyfer 2003-2004 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r adroddiad hwn o ganfyddiadau'r arolwg yn arfarnu agweddau ar arfer dda mewn addysgu a dysgu Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Rhoddir pwyslais penodol ar y cyfnod pontio rhwng y ddau gyfnod allweddol. Mae'r adroddiad hefyd yn disgrifio ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar safonau.

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar:

- dystiolaeth o arolygiadau ysgol Adran 10 a gynhaliwyd yn 2002-2003;
- ymweliadau undydd gan AEM â 38 o ysgolion cynradd ac uwchradd yn ystod tymor yr hydref 2003 ac yn nhymor y gwanwyn 2004; a
- thrafodaethau gydag ymgynghorwyr Cymraeg ac athrawon bro AALlau.

Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried tueddiadau mewn safonau ac ansawdd dros y tair blynedd diwethaf, gan ddefnyddio data arolygu Estyn.

Er mwyn helpu codi safonau mewn Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, mae'r adroddiad yn rhoi sylw penodol i nodi:

- disgrifiadau o arfer dda;
- prif nodweddion safonau da;
- diffygion cyffredin lle mae safonau ac ansawdd yn anfoddhaol neu'n foddhaol yn unig; a'r
- materion allweddol sydd angen sylw er mwyn codi safonau.

Nid bwriad yr adroddiad hwn yw cynnwys pob agwedd ar addysgu a dysgu, ac nid ydym yn disgwyl y bydd pob astudiaeth achos neu enghraifft o arfer dda a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn yn berthnasol i bob ysgol. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai o'r enghreifftiau hyn yn helpu ysgolion i wella dulliau addysgu, dysgu a safonau mewn Cymraeg fel ail iaith.

## 2. Prif ganfyddiadau

### Pontio rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd

#### Cynllunio ar y cyd

Er bod rhai enghreifftiau o fentrau defnyddiol wrth gynllunio ar gyfer pontio i fyfyrwyr rhwng cyfnodau allweddol, ni cheir digon o gysylltiadau cwricwlwm o ansawdd da i sicrhau dilyniant mewn dysgu. Yn rhy aml, mae ysgolion uwchradd yn dechrau addysgu Cymraeg ail iaith ar fan cychwyn sy'n rhy isel, heb ystyried cyflawniadau blaenorol y disgyblion.

#### Rhannu arbenigedd

Un o'r mentrau gorau o ran gwella'r trefniadau ar gyfer pontio yw rhannu arbenigedd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd lle mae ysgolion uwchradd Cymraeg yn gweithio gydag ysgolion cynradd sy'n eu bwydo. O ganlyniad, mae'r disgwyliadau wedi codi ac mae'r disgyblion bellach yn gwneud rhywfaint o waith ym Mlwyddyn 6, rhywbeth nad oedd yn bosibl o'r blaen tan Flwyddyn 7.

#### Addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn gweld manteision defnyddio'r ail iaith fel cyfrwng i gynnig profiadau yn y cwricwlwm ehangach. Rhoddir cyfleoedd gwell i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau iaith mewn cyd-destunau heblaw'r wers iaith. Mae dysgu a chymhelliant y disgyblion yn gwella hefyd.

#### Trosglwyddo a defnyddio data

Mae systemau'n bodoli i ddarparu data am gyflawniad disgyblion ar unwaith. Serch hynny, nid yw llawer o ysgolion cynradd yn trosglwyddo data, ac mae eraill yn trosglwyddo data annigonol i roi darlun clir o gyflawniadau disgyblion. Mae rhywfaint o ddata yn cyrraedd ysgolion uwchradd yn rhy hwyr i fod yn ddefnyddiol.

#### Gweithgareddau allgyrsiol

Mae nifer cynyddol o AALlau ac adrannau Cymraeg mewn ysgolion uwchradd wedi datblygu ystod o weithgareddau fel darpariaeth diwrnodau rhagflas, cwisiau llyfrau, ysgrifennu storïau a chysylltiadau e-bost i ddisgyblion Blwyddyn 6 i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i weithgareddau arferol yr ystafell ddosbarth.

#### Cymraeg fel ail iaith a defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Mae defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn hybu hunanhyder a chymhelliant y disgyblion mewn Cymraeg fel ail iaith. Gall y disgyblion ymchwilio'n annibynnol, cyfathrebu â disgyblion mewn ardaloedd eraill yng Nghymru a datblygu medrau darllen drwy ddefnyddio adnoddau Cymraeg ar y rhyngrwyd.

### Rheoli gwelliant

#### Monitro ac arfarnu effeithiol

Mae gan gydlynwyr Cymraeg a phenaethiaid yr adrannau Cymraeg rôl bwysig i'w chwarae wrth fonitro ac arfarnu ansawdd yr addysg a safonau gwaith mewn Cymraeg fel ail iaith. Mae'r math gorau o fonitro yn defnyddio arsylwadau yn yr

ystafell ddosbarth i arfarnu'r hyn sy'n mynd yn dda a nodi'r rhesymau dros y llwyddiant hwn. Mae monitro hefyd yn canolbwyntio ar sut i hyrwyddo dilyniant effeithiol o gyfnodau allweddol 2 i 3.

## Arsylwi yn yr ystafell ddosbarth

Mae'r gwelliannau mwyaf effeithiol mewn addysgu a dysgu Cymraeg fel ail iaith wedi digwydd pan fo athrawon cynradd ac uwchradd yn arsylwi dulliau addysgu a gwaith disgyblion yn nosbarthiadau ei gilydd. Mae athrawon yn cael gwell dealltwriaeth o arfer ei gilydd yn sgîl rhannu arsylwadau.

## Safonau cyflawniad

Mae safonau mewn Cymraeg fel ail iaith yn waeth na safonau mewn unrhyw bwnc Cwricwlwm Cenedlaethol arall. Fodd bynnag, mae safonau cyflawniad wedi codi dros y tair blynedd diwethaf yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Bu cynnydd yn nifer y dosbarthiadau lle mae disgyblion yn cyflawni safonau boddhaol a da, a gostyngiad yng nghyfran y gwaith anfoddhaol. Serch hynny, dim ond cyfran fechan iawn o safonau cyflawniad sy'n dda iawn – y canran uchaf o bob pwnc yn y ddau gyfnod allweddol. Mae safonau cyflawniad yn anfoddhaol neu'n wael mewn 3% o ddosbarthiadau cynradd a 5% o ddosbarthiadau uwchradd.

Er bod safonau cyflawniad wedi gwella, maent yn dal i fod yn is nag unrhyw bwnc Cwricwlwm Cenedlaethol arall.

## Safonau cyflawniad mewn ysgolion cynradd

Er bod y gwaith anfoddhaol wedi gostwng, ni fu unrhyw gynnydd sylweddol mewn safonau da. Mae safonau da iawn yn brin. Yn gyffredinol, nid yw'r safonau ym Mlynyddoedd 5 a 6 gystal â safonau ym Mlynyddoedd 3 a 4. Mae cyfran y dosbarthiadau â safonau cyflawniad da neu dda iawn ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn 2002-2003 yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol. Ar y cyfan, nid yw disgwyliadau'r athrawon na gwaith y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn ddigon heriol i ddatblygu ar y cynnydd yn y safonau a gyflawnir ym Mlynyddoedd 3 a 4.

## Safonau cyflawniad mewn ysgolion uwchradd

Mae cyfran y gwaith sy'n foddhaol neu'n dda wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf. Dim ond ychydig o'r gwaith sy'n dda iawn ac ni fu unrhyw welliant yng nghyfran y gwaith da iawn yn y tair blynedd diwethaf.

Ar y cyfan, nid yw'r disgwyliadau yng nghyfnod allweddol 3 yn ddigon uchel i herio disgyblion i adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn yr ysgol gynradd. Yn rhy aml, nid yw'r cynlluniau gwaith yn ystyried yr angen i gynllunio dilyniant a pharhad.

## 3. Argymhellion

Er mwyn codi safonau o foddhaol i dda a da iawn, mae angen:

- gofyn am ymatebion hwy ar lafar gan ddisgyblion a phrofi eu gallu i gymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu i sefyllfaoedd cyfathrebu naturiol, gan gynnwys gwneud cyfraniadau digymell ac estynedig;
- ymestyn yr ystod darllen a gwella gallu disgyblion i drafod agweddau ar ffuglen a defnyddio ffynonellau ffeithiol;
- gwella gallu disgyblion i ysgrifennu'n gywir yn eu geiriau eu hunain ar gyfer ystod gynyddol o ddibenion ac mewn amrywiaeth o ffurfiau;
- cynllunio'n ofalus i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyson ar draws y cyfnodau allweddol mewn ystod o fedrau darllen ac ysgrifennu;
- sicrhau dilyniant yn y dysgu rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3; a
- datblygu strategaethau mewn ysgolion ar gyfer hunanarfarnu ansawdd a'r safonau a gyflawnir.

### Dylai athrawon:

- wella dilyniant a pharhad mewn dulliau addysgu rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3;
- arsylwi dosbarthiadau yn y sector a ddaw cyn neu ar ôl eu sector hwy, i wella dilyniant a pharhad rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3; a
- monitro safonau'n rheolaidd drwy arsylwi a samplu gwaith disgyblion, ac olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn eu cyflawniad blaenorol.

### Dylai ysgolion cynradd:

- sicrhau y caiff digon o wybodaeth am gyflawniad disgyblion ei throsglwyddo ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ac y caiff ei defnyddio i gynllunio cynlluniau gwaith yng nghyfnod allweddol 3.

### Dylai ysgolion uwchradd:

- adolygu a mireinio eu cynlluniau Cymraeg fel ail iaith i sicrhau gwell dilyniant a pharhad rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd. Mae angen iddynt godi disgwyliadau disgyblion a chynnig gwaith iddynt sydd yr un mor heriol â'r astudiaethau achos arfer dda sydd yn yr adroddiad hwn.

# 4. Arfer dda yn y Gymraeg fel ail iaith

## 4.1 Trefniadau pontio effeithiol rhwng addysg gynradd ac uwchradd

Mae'r term pontio yn cwmpasu'r holl ddarpariaeth a gynigir gan ysgolion, neu AALlau perthnasol, i gynorthwyo a chefnogi disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd. Mae gan y mwyafrif o ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac AALlau gynlluniau a rhaglenni i wella pontio. Mae ysgolion cynradd ac uwchradd yn gweithio gyda'i gilydd fwyfwy i wella parhad mewn addysgu a dysgu rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3. Mae'r cynlluniau mwyaf effeithiol yn nodi'r gwahanol ffactorau sy'n gysylltiedig â phontio effeithiol, er enghraifft, llunio polisïau a chynllunio ar y cyd, ac yn dangos sut y maent yn bwriadu gwneud gwelliannau fel yr amlinellir yn **Symud Ymlaen: Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3,** Estyn 2003.

Yn ddiweddar mae AALlau wedi rhoi blaenoriaeth i wella pontio mewn Cymraeg fel ail iaith. Maent wedi darparu hyfforddiant, adnoddau a chynhaliaeth ymgynghorol i ysgolion i'w helpu i wella'r cysylltiadau rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd. Yn y sefyllfaoedd gorau, mae ysgolion cynradd ac uwchradd wedi datblygu cynlluniau ar y cyd i wella pontio ac maent yn eu cynnwys yn eu cynlluniau datblygu ysgol.

### 4.1.1 Polisïau pontio effeithiol

Mae trefniadau pontio effeithiol yn cynnwys pob athro sydd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gyfrifol am gynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Mae rhai ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cytuno ar bolisïau ar y cyd, gyda nodau ac amcanion clir. Mae'r athrawon yn yr ysgolion hyn yn deall eu cyfrifoldebau eu hunain dros weithredu'r polisïau hyn.

Mae gan y polisïau pontio gorau drefniadau sefydlog rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd ar gyfer:

- creu cynlluniau gwaith ar y cyd ar gyfer pontio fel bod disgyblion yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn flaenorol;
- gwella parhad mewn dulliau addysgu a dysgu;
- trosglwyddo a defnyddio data ar gyflawniadau disgyblion yn effeithiol;
- arsylwi arfer yr ystafell ddosbarth yn y ddau sector; a
- rhannu arbenigedd.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn disgrifio sut mae trefniadau pontio da yng Ngheredigion yn cefnogi dilyniant rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 ar gyfer disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith.

### Astudiaeth achos 1: Trefniadau pontio i ddatblygu dilyniant rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3.

Mae ysgol uwchradd a'r holl ysgolion cynradd mewn tref yng Ngheredigion wedi dod ynghyd i sefydlu Pwyllgor Llywio Pontio ar gyfer yr ardal. Mae aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys holl benaethiaid yr ardal. Mae paneli pwnc wedi cael eu sefydlu ar gyfer pob pwnc cwricwlwm, gan gynnwys Cymraeg fel ail iaith.

Mae'r panel Cymraeg fel ail iaith wedi edrych ar ffurfiau iaith a gyflwynir i ddisgyblion i sicrhau bod athrawon yn defnyddio patrymau brawddeg a geirfa yn gyson ar draws y ddau gyfnod allweddol. Yn ogystal, mae'r AALl wedi paratoi profion Cymraeg fel ail iaith ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 a ddefnyddiwyd ym mis Mai 2003 i asesu cynnydd disgyblion.

Yn sgîl y datblygiadau hyn:

- mae'r berthynas rhwng yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd wedi cryfhau oherwydd bod athrawon cynradd ac uwchradd yn cydweithio'n agosach;
- lluniwyd portffolio yn rhoi enghreifftiau o lefelau cyflawniad disgyblion mewn gwaith llafar ac ysgrifenedig;
- mae'r ysgol uwchradd wedi cael llawer mwy o wybodaeth ynglŷn â chyflawniad disgyblion Blwyddyn 7; a
- gall yr ysgol uwchradd adeiladu ar y gwaith a wnaed yng nghyfnod allweddol 2 yn fwy effeithiol ym Mlwyddyn 7.

### 4.1.2 Cynllunio ar y cyd

Yn ddiweddar mae rhai ysgolion uwchradd wedi datblygu cynlluniau ar y cyd gyda'r ysgolion cynradd yn eu dalgylchoedd. Defnyddir y term 'uned bontio' i ddisgrifio uned o waith y mae athrawon cynradd ac uwchradd wedi'i chynllunio ar y cyd. Fel arfer, caiff yr uned bontio ei dechrau ar ddiwedd Blwyddyn 6 a'i chwblhau ar ddechrau Blwyddyn 7. Mae'r unedau gorau yn llwyddo i gynnal parhad yn nysgu disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mae AALlau yn helpu'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd yn eu hawdurdod i ddatblygu unedau pontio ar y cyd yn ystod y cyfnod pontio. Gall ysgolion addasu'r modelau hyn yn unol â'u hamgylchiadau penodol eu hunain.

Mae'r astudiaeth achos isod yn disgrifio'r ffordd y mae AALlau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot wedi cydweithio i ddatblygu 'uned bontio' sy'n rhaglen fer o waith ar ffurf llyfryn sy'n cwmpasu cyfnodau allweddol 2 a 3.

## Astudiaeth achos 2: Datblygu unedau pontio i gwmpasu gwaith o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3

Mae Canolfan San Helen, sy'n gwasanaethu AALlau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, wedi paratoi llyfryn o'r enw **'O Gynradd i Gyfun'** er mwyn datblygu cysylltiadau cwricwlaidd Cymraeg fel ail iaith rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn y ddwy sir. Cyflwynir y llyfryn i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn yr ysgolion cynradd yn ystod tymor yr haf a chaiff ei drosglwyddo gyda'r disgyblion i'r ysgol uwchradd yn nhymor yr hydref.

Cynhelir y gwaith yn hanner cyntaf **'O Gynradd i Gyfun'** gan ddisgyblion Blwyddyn 6 yn nhymor yr haf, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o ymarferion adolygu. Mae disgyblion yn dechrau drwy drafod eu hunain, eu cyfeillion a'u diddordebau er mwyn datblygu eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu. Mae'n cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau, sy'n cynnwys holi ac ateb cwestiynau, ysgrifennu sgyrsiau, llenwi holiaduron syml a hunanasesu. Gwneir y gwaith yn ail hanner y llyfryn ar ddechrau Blwyddyn 7. Mae gan uned ar y tŷ a'r ardd amrywiaeth o ymarferion sy'n datblygu medrau llafar, gwylio, darllen ac ysgrifennu'r disgyblion. Pan fyddant wedi gorffen y llyfryn, bydd y disgyblion yn gwneud asesiad ysgrifenedig ar ffurf llythyr ac yn llenwi ffurflen hunanasesu arall.

Mae athrawon a disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd wedi croesawu'r fenter hon. Yn sgîl defnyddio'r llyfryn, mae athrawon ysgolion cynradd yn fwy hyderus wrth gyflwyno deunyddiau ac mae pob disgybl cynradd yn y ddwy sir yn defnyddio'r un patrymau iaith a chystrawen. Mae athrawon uwchradd hefyd wedi gweld cynnydd gwell yng nghyflawniad disgyblion erbyn dechrau Blwyddyn 7 a gallant adeiladu ar y cynnydd hwn yn fwy effeithiol.

Mae'r broses o gynllunio pontio wedi cynorthwyo athrawon cynradd ac uwchradd wrth ddysgu mwy am gynlluniau gwaith a dulliau addysgu ei gilydd.

Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at addysgu gwell ym Mlwyddyn 7 oherwydd bod athrawon uwchradd yn cael gweld gwaith disgyblion Blwyddyn 6 yn gynt na'r arfer. Gallant ddadansoddi cryfderau a gwendidau'r disgyblion yn well a defnyddio'r canfyddiadau i gynllunio addysgu a dysgu ym Mlwyddyn 7. Anogir disgyblion i wneud eu gwaith gorau oherwydd eu bod yn gwybod y cânt eu hasesu ar sail hyn yn y cyfnod allweddol nesaf ac y bydd y gwaith yn parhau yng nghyfnod allweddol 3. Mae cael tystiolaeth o waith blaenorol disgyblion yn ei gwneud yn haws i athrawon gynllunio ac arfarnu cynnydd ym Mlwyddyn 7. Mae'r cynlluniau gorau yn gwella dilyniant a pharhad yn unol ag anghenion dysgu disgyblion. Mae gan y cynlluniau hyn amcanion heriol ac maent yn ennyn diddordeb disgyblion fel eu bod yn edrych ymlaen at barhau â'r gwaith yn eu hysgol uwchradd.

Mewn naw awdurdod ledled Cymru, mae'r arfer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhannu llyfrynnau cwrs yn datblygu'n dda. Mewn awdurdodau yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, mae AALlau yn cynnig copïau o'r llyfr cwrs **'Ymlaen â ni'** i ddisgyblion cynradd a chanllawiau athrawon i adrannau uwchradd. Mae'r AALlau hyn hefyd yn trosglwyddo copïau o gynlluniau gwaith Blwyddyn 5 a 6 i'r adrannau Cymraeg uwchradd. Mae'r mentrau hyn yn helpu i sicrhau dilyniant a pharhad yn nysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o ysgolion uwchradd sy'n rhannu eu cynlluniau gwaith Cymraeg ar hyn o bryd gyda'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo.

Mae athrawon bro hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig wrth gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i ddod ynghyd ar gyfer pontio mewn Cymraeg fel ail iaith. Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos sut y gall athrawon bro gryfhau trefniadau pontio.

### Astudiaeth achos 3: Rôl athrawon bro wrth gryfhau trefniadau pontio

Mae ysgol uwchradd a'i chwe ysgol fwydo yng Nghaerdydd wedi bod yn ceisio gwella cysylltiadau'r cwricwlwm er mwyn cyflawni gwell dilyniant ym mhrofiadau'r disgyblion a'u gafael ar iaith.

Mae athrawon o'r ddau sector wedi cydweithredu gyda'r gwasanaeth athrawon bro. Mae hyn wedi arwain at becyn pontio ar gyfer Blynyddoedd 6 a 7 sy'n cynnig arweiniad ar nodau ac amcanion ieithyddol, pynciau ar gyfer trafodaeth ac enghreifftiau o weithgareddau. Mae'r cynllun ar hyn o bryd yn cael ei weithredu ym Mlwyddyn 6.

Mae athrawon bro yn ymweld â'r ysgolion cynradd yn rheolaidd i gyflwyno gwersi enghreifftiol ym Mlwyddyn 6 yn seiliedig ar y cynllun newydd ac i osod targedau i athrawon dosbarth eu cyflawni rhwng ymweliadau. O bryd i'w gilydd, bydd yr athrawon uwchradd hefyd yn ymweld â'r ysgolion cynradd ac yn addysgu dosbarthiadau Blwyddyn 6 ar y cyd gyda'r athro dosbarth. Y bwriad yw y dylai athrawon cynradd wneud yr un peth mewn ysgolion uwchradd y flwyddyn nesaf.

Ar hyn o bryd, mae'r cynllun pontio ym Mlwyddyn 6 yn helpu i:

- roi gwell cyfeiriad i'r gwaith yn ystod y cyfnod pontio;
- sefydlu disgwyliadau priodol ar gyfer Blynyddoedd 6 a 7 yn seiliedig ar well dealltwriaeth o'r hyn a gwmpesir gan ddisgyblion yn y cwricwla;
- creu gwell perthynas rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd;
- ymgyfarwyddo athrawon uwchradd â dulliau addysgu a threfn yr ystafell ddosbarth yn y sector cynradd; a
- dod â mwy o amrywiaeth i'r dulliau addysgu yn yr ystafell ddosbarth drwy rannu arfer dda.

### 4.1.3 Rhannu arbenigedd

Un o'r mentrau gorau o ran gwella trefniadau ar gyfer pontio yw rhannu arbenigedd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd lle mae athrawon uwchradd Cymraeg fel ail iaith yn gweithio gyda'r ysgolion cynradd sy'n bwydo. Mae Ysgol Gyfun Treorci wedi penodi athrawes Gymraeg i gydweithio ag athrawon dosbarth mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n bwydo. O ganlyniad, mae disgwyliadau wedi codi ac mae disgyblion bellach yn gwneud rhywfaint o waith ym Mlwyddyn 6, rhywbeth na fu'n bosibl ei gyflawni cyn hynny hyd at Flwyddyn 7.

#### Astudiaeth achos 4: Rhannu arbenigedd rhwng ysgolion uwchradd a chynradd

Mae Ysgol Gyfun Treorci, yn Rhondda Cynon Taf, wedi datblygu cynllun tair blynedd i godi safonau mewn Cymraeg fel ail iaith. Mae athrawes arbenigol, a gyflogir gan yr ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg, yn cyflwyno gwersi Cymraeg ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn yr ysgolion cynradd sy'n bwydo. O ganlyniad i'r cynnydd a wnânt, mae'r disgyblion sy'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn trosglwyddo i ddosbarth yn yr ysgol uwchradd. Yno, gallant ddilyn nifer o bynciau yn ddwyieithog, er enghraifft, daearyddiaeth, ABCh a drama.

Mae'r cynllun arloesol hwn wedi cynyddu hyder a chyflawniad y disgyblion cynradd. Y bwriad yw y bydd llawer ohonynt yn sefyll arholiadau TGAU mewn Cymraeg fel ail iaith ym Mlwyddyn 10 yn hytrach nag ym Mlwyddyn 11 yn flaenorol. Bydd hyn yn galluogi disgyblion i ddatblygu ymhellach drwy fynd ymlaen i sefyll yr arholiad TGAU Cymraeg Llenyddiaeth ym Mlwyddyn 11.

### 4.1.4 Addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn gweld manteision mewn defnyddio'r ail iaith fel cyfrwng ar gyfer profiadau yn y cwricwlwm ehangach. Drwy ddefnyddio'r iaith yn y ffordd hon, maent yn rhoi mwy o gyfleoedd i'w disgyblion ddefnyddio eu medrau iaith mewn cyd-destunau heblaw'r wers iaith. Caiff dysgu disgyblion ei wella'n sylweddol drwy roi'r cyfle iddynt ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destun a sefyllfaoedd gwahanol. Mae'r profiad yn cymell eu dysgu ac yn eu hannog nid yn unig i ymarfer yr iaith, ond hefyd i'w defnyddio'n bwrpasol.

Mae'r strategaeth hon yn aml yn gweithio orau mewn pynciau sydd ag elfen ymarferol gref, er enghraifft, addysg gorfforol, celf a drama, yn enwedig yn yr ysgol gynradd. Mae gwaith mewn pynciau o'r fath nid yn unig yn meithrin ystod o fedrau pwnc defnyddiol, ond mae hefyd yn creu amrywiaeth o gyfleoedd i ymestyn iaith y disgyblion, ar ei hamryw ffurfiau, yng nghyswllt profiadau newydd. Hefyd ceir enghreifftiau o ysgolion yn addysgu rhai pynciau dyniaethol. Mae'r astudiaeth achos a ganlyn yn dangos y ffordd y mae ysgol yng Ngheredigion wedi datblygu medrau ail iaith drwy gynnal prosiect dyniaethau.

## Astudiaeth achos 5: Datblygu medrau Cymraeg drwy brosiect dyniaethau

> Mae dosbarth Blwyddyn 6 mewn ysgol gynradd yng Ngheredigion wedi bod yn astudio eu hardal leol fel rhan o'u rhaglenni astudio daearyddiaeth a hanes.
>
> Er mwyn galluogi'r disgyblion i ddatblygu medrau ail iaith fel rhan o'r prosiect hwn, mae staff yr ysgol wedi gofyn i'r athrawes fro gynllunio cynllun gwaith manwl sy'n cynnwys deunyddiau a strategaethau a fydd yn hyrwyddo medrau llafar, darllen ac ysgrifennu'r disgyblion.
>
> O ganlyniad i ddilyn y cynllun fel a gynlluniwyd, mae'r disgyblion wedi gallu cynnal trafodaeth estynedig yn ystod sesiwn chwarae rôl mewn siop gwybodaeth i dwristiaid. Maent wedi chwilota drwy atlasau ar gyfer lleoedd â thermau daearyddol yn enw'r dref neu'r pentref, fel 'aber', 'llan', 'tref' a 'caer'. Maent wedi ysgrifennu'n annibynnol ac yn estynedig ynglŷn ag atyniadau'r dref.
>
> O ganlyniad i'r cynllun hwn, mae disgyblion yn gwella eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu yn effeithiol. Mae disgyblion hefyd yn ddigon hyderus i drafod eu gwaith gydag ymwelwyr gan ddefnyddio'r eirfa newydd y maent wedi'i dysgu.

Yn ddiweddar, mae rhai ysgolion cynradd ac uwchradd wedi datblygu mentrau ar y cyd sy'n galluogi disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol gynradd i drosglwyddo i raglen sy'n parhau i addysgu pynciau yn Gymraeg yn yr ysgol uwchradd. Mae'r cysylltiadau da rhwng y ddau sector yn hanfodol i lwyddiant unrhyw gynllun pontio o'r fath. Mae pob cynllun yn dechrau gyda thrafodaethau rhwng yr ysgolion cynradd ac uwchradd ynglŷn â pherfformiad ieithyddol disgyblion. Mewn rhai achosion, mae athrawon bro hefyd yn ymwneud â'r gwaith.

Mae rhai ysgolion yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin wedi trefnu i bob disgybl Blwyddyn 6 yn nalgylch yr ysgol sefyll profion Cymraeg ar ddiwedd tymor yr haf a lunnir naill ai gan adran Gymraeg yr ysgol uwchradd neu'n ganolog gan yr AALl i nodi lefelau cyflawniad disgyblion mewn Cymraeg fel ail iaith. Gweinyddir y profion gan yr athrawon bro lleol a chânt eu marcio gan bennaeth yr adran Gymraeg yn yr ysgol uwchradd neu'n ganolog gan yr AALl. Caiff canlyniadau profion a TASau Cymraeg y disgyblion eu trafod yn gyffredinol gyda'r athrawon bro a chydag aelodau o uwch dîm rheoli'r ysgol uwchradd, cyn iddynt wahodd disgyblion i ymuno â'r grŵp pontio yn yr ysgol uwchradd. O ganlyniad, mae'r ysgol yn cysylltu â rhieni i wahodd disgyblion addas i fod yn rhan o'r grŵp pontio. Trafodir goblygiadau pontio yn fanwl gyda'r disgyblion a'u rhieni cyn dod i benderfyniad terfynol. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn derbyn y gwahoddiad i ymuno â'r prosiect.

Mae'r prosiect yn golygu bod disgyblion yn dilyn cwrs dwys mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 3 gyda'r nod o sefyll TGAU Cymraeg Ail Iaith naill ai ar ddiwedd Blwyddyn 9 neu Flwyddyn 10. Yna, bydd y disgyblion yn trosglwyddo i ddilyn rhaglen astudio yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4.

Yn ogystal â dilyn rhaglen iaith ddwys yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3, mae'r disgyblion yn dilyn agweddau ar bynciau, neu bynciau cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft, cyrsiau daearyddiaeth, technoleg a thechnoleg gwybodaeth.

Mae rhai ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn cyflogi cynorthwy-ydd i gefnogi dysgu Cymraeg mewn ymgais i godi safonau cyflawniad disgyblion a'u galluogi'n well i wneud rhywfaint o waith cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn hwyluso gwaith grŵp ac yn cynyddu amser cyswllt disgyblion â'r iaith. Mae'r astudiaeth achos isod yn disgrifio manteision defnyddio cynorthwy-ydd.

**Astudiaeth achos 6: Defnyddio cynorthwy-ydd cymorth dysgu i ddatblygu medrau iaith**

Mae ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin yn cyflogi cynorthwy-ydd cymorth dysgu, yn arbennig ar gyfer cynllun dwyieithog yr ysgol, i wella medrau iaith disgyblion.

Rôl y cynorthwy-ydd yw cefnogi athrawon sy'n addysgu rhaglen ddwys yn y Gymraeg ar gyfer disgyblion ail iaith yng nghyfnod allweddol 3. Mae hi hefyd yn cefnogi athrawon sy'n addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynorthwy-ydd yn gweithio gyda grwpiau bach o fyfyrwyr er mwyn gwella eu medrau llafar.

Mae'r cynorthwy-ydd hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth weithio gyda disgyblion sy'n cyrraedd yr ysgol heb allu siarad Cymraeg o gwbl. Mae'r cynorthwy-ydd yn helpu'r athro dosbarth drwy gymryd grwpiau bach o ddisgyblion i weithio'n ddwys ar agweddau ieithyddol ar y wers fel y gallant ddal i fyny gyda'r gweddill.

Mae disgyblion wedi elwa'n fawr ar gynhaliaeth o'r fath ac o gael mwy o gyfle i ymarfer eu medrau iaith yn fwy dwys.

Pan fydd ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhoi cyfleoedd i'w disgyblion gael profiadau ychwanegol mewn Cymraeg, mae safonau cyflawniad yn uwch ac mae disgyblion yn fwy tebygol o fod yn ddwyieithog. Gall y profiadau hyn gyfrannu at gynyddu ac ymestyn cyrhaeddiad disgyblion yn yr iaith a chyfoethogi eu gallu a'u gwybodaeth bwnc ar yr un pryd. Cynllunio cydweithredol yw'r allwedd i deilliannau da ar gyfer disgyblion.

### 4.1.5 Trosglwyddo a defnyddio data

Mae llawer o ysgolion cynradd ar hyn o bryd yn trosglwyddo data a gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â lefelau cyflawniad disgyblion mewn Cymraeg fel ail iaith.

Mae systemau'n bodoli i ddarparu data yn gyflym. Serch hynny, nid yw llawer o ysgolion cynradd yn trosglwyddo data, ac nid yw eraill yn trosglwyddo digon o ddata i roi darlun clir o gyflawniadau disgyblion. Yn anffodus, mae rhywfaint o ddata yn dal i gyrraedd ysgolion uwchradd yn rhy hwyr i fod o unrhyw ddefnydd.

Yn ddiweddar, mae tîm athrawon bro Sir Benfro wedi bod yn gweithio gydag ysgolion i nodi cyflawniad disgyblion mewn Cymraeg fel ail iaith, er mwyn pontio'r bwlch rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd. Mae'r athrawon bro yn pennu lefelau ar gyfer disgyblion unigol ar ddiwedd y cyfnod allweddol mewn cydweithrediad â'r athro dosbarth ac yn trosglwyddo'r wybodaeth hon yn uniongyrchol i adran Gymraeg yr ysgol uwchradd.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn disgrifio'r ffordd y mae hyn yn digwydd.

### Astudiaeth achos 7: Trosglwyddo data rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd

Yn Sir Benfro, mae'r tîm athrawon bro, mewn cydweithrediad â'r athrawon cynradd ac uwchradd, yn cyflwyno cwrs pontio ar gyfer pob disgybl Blwyddyn 6.

Mewn cydweithrediad â'r athrawon dosbarth, mae athrawon bro yn pennu lefelau perfformiad mewn Cymraeg ar ddiwedd Blwyddyn 6 ac yn rhoi canlyniadau'r asesiadau hyn i'r holl benaethiaid adran yn yr ysgolion uwchradd sydd hefyd yn cael cynlluniau gwaith yr ysgolion cynradd. Mae hyn yn helpu i sicrhau dilyniant a pharhad mewn addysgu a dysgu rhwng Blynyddoedd 6 a 7.

Mantais fawr y system hon yw bod yr athrawon bro yn datblygu trosolwg o berfformiad disgyblion ar lefel ardal a lefel sir. Maent yn trafod cryfderau a gwendidau'r addysgu, ac o ganlyniad, maent yn mireinio eu cynlluniau gwaith er mwyn codi safonau.

Yn yr ysgolion uwchradd gorau, mae adrannau Cymraeg yn defnyddio gwybodaeth am gyflawniadau disgyblion mewn Cymraeg fel ail iaith i:

- osod targedau ar gyfer yr adran, dosbarthiadau a disgyblion unigol;
- adolygu cynnydd tuag at dargedau;
- nodi tangyflawniad unigolion, grwpiau neu ddisgyblion mewn pynciau penodol; a
- llywio unrhyw adolygiadau o ddysgu, addysgu a chynllunio.

Mae rhai ysgolion uwchradd yn defnyddio data yn dda. Maent yn cadw cofnodion llawn o waith ac asesiadau diwedd uned disgyblion bob tymor. Mae dadansoddi'r asesiadau hyn yn helpu athrawon i addasu eu dulliau addysgu, lle bo angen, fel a amlygir yn yr astudiaeth achos a ganlyn.

### Astudiaeth achos 8: Defnyddio data i olrhain dilyniant

Mewn un ysgol uwchradd ym Mhowys, mae pennaeth yr adran Gymraeg yn ymweld â phob ysgol gynradd yn y dalgylch bob tymor i siarad â'r athrawon a chasglu ffurflenni asesu crynodol ar berfformiad pob disgybl ym Mlwyddyn 6.

Caiff y wybodaeth ei throsglwyddo i daenlen i helpu dyrannu disgyblion i ddosbarthiadau ym Mlwyddyn 7, yn unol â'u gallu mewn Cymraeg. Caiff y wybodaeth ei diweddaru'n rheolaidd a chaiff ei defnyddio hefyd i olrhain cyflawniad disgyblion o'r ysgol gynradd i ddiwedd cyfnod allweddol 3.

O ganlyniad, nid oes rhaid i'r ysgol uwchradd fynd dros yr un tir eilwaith. Mae hefyd mewn gwell safle i gynnig her i'r disgyblion mwyaf abl a chynnal cymhelliant disgyblion.

## 4.1.6 Gweithgareddau allgyrsiol i hyrwyddo cysylltiadau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd

### Diwrnodau rhagflas

Mae rhan fwyaf yr ysgolion uwchradd bellach yn cynnig diwrnodau rhagflas i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn eu dalgylchoedd yn ystod tymor yr haf cyn iddynt ymuno â'r ysgol. Cynigir ystod o brofiadau i ddisgyblion i'w galluogi i ddod i adnabod yr ysgol uwchradd a'u hathrawon newydd. Yn ddiweddar, mae nifer gynyddol o adrannau Cymraeg wedi dod yn rhan o'r ddarpariaeth diwrnodau rhagflas. Cynigir gwers yn ystod y dydd i ddisgyblion ail iaith. Mae hyn yn eu galluogi i ymgyfarwyddo â threfniadaeth y dosbarth, a dysgu am gyfarchion a'r iaith achlysurol a ddefnyddir yn yr ysgol uwchradd.

### Astudiaeth achos 9: Diwrnodau rhagflas

Bob yn ail flwyddyn mewn un ysgol uwchradd ym Merthyr Tudful, bydd yr adran Gymraeg yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau ieithyddol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 yn y dalgylch. Trefnir nifer o weithgareddau Cymraeg fel cwisiau yn debyg i "Who wants to be a millionaire?", gemau parasiwt a helfa drysor o amgylch yr ysgol. Mae'r swyddog lleol yr Urdd yn cyfrannu at hwyl y diwrnod drwy arwain rhai o'r gemau a gweithgareddau iaith.

Mae'r disgyblion yn mwynhau'r gweithgareddau ac yn defnyddio'r diwrnod i ddod i adnabod yr athrawon Cymraeg cyn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Mae'r adran Gymraeg hefyd yn cynnig diwrnod o hwyl a sbri i ddisgyblion Blwyddyn 7 na chafodd y cyfle i fynychu diwrnod rhagflas tra oeddent yn yr ysgol gynradd.

Mae'r diwrnodau 'hwyl a sbri' hyn yn apelio'n fawr at ddisgyblion ac yn helpu i'w cymell drwy fwynhad.

### Cwis y sir

Yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint, mae'r gwasanaeth athrawon bro yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg mewn ysgolion. Un o'r llwyddiannau mawr fu'r cwis ail iaith ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6. Mae'r cwis llwyddiannus hwn wedi cael ei drefnu am bum mlynedd yn ystod wythnosau olaf tymor yr haf ym mis Mehefin a mis Gorffennaf.

Trefnir y rownd gyntaf yn yr ysgolion cynradd gyda'r athrawon uwchradd fel beirniaid. Mae hyn yn galluogi'r athrawon i weld y disgyblion yn mynd ati i ddefnyddio'r iaith.

Mae cynnwys y cwis yn adlewyrchu'r iaith a ddysgir yn ystod cyfnod allweddol 2. Mae'r disgyblion yn gwneud cyflwyniad byr ar lyfr neu stori y maent wedi'i hastudio a'i mwynhau. Caiff yr enillwyr dystysgrifau a thlws ar gyfer yr ysgol.

### Crynodeb o'r nodweddion da mewn trefniadau pontio

Mae enghreifftiau o arfer dda mewn trefniadau pontio yn cynnwys athrawon cynradd ac uwchradd yn arsylwi gwersi ei gilydd i nodi arfer effeithiol, er enghraifft, strwythurau gwersi, defnyddio iaith achlysurol, chwarae rôl ac ati. Pan fydd athrawon cyfnod allweddol 2 a 3 yn cydweithredu i greu cynllun gweithredu ar gyfer pontio, yn rhan fwyaf yr awdurdodau mae athrawon o'r ddau sector yn cyfnewid ac yn trafod cynnwys eu cynlluniau gwaith ac yn datblygu cynlluniau gwaith ar y cyd i wella dilyniant o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Yn yr enghreifftiau gorau mae athrawon yn cynllunio unedau gwaith i'w dechrau ym Mlwyddyn 6 a'u cwblhau ym Mlwyddyn 7.

Pan fydd athrawon o'r ddau sector yn cytuno ar y dystiolaeth o gyflawniad sydd angen ei throsglwyddo i athrawon uwchradd, gallant nodi cynnydd disgyblion unigol yng nghyfnod allweddol 3. Mae athrawon cynradd ac uwchradd hefyd yn medru asesu gwaith disgyblion ym Mlynyddoedd 6 a 7 ar y cyd i gytuno ar gryfderau a gwendidau yng ngwybodaeth a medrau disgyblion unigol, er mwyn cynllunio ar gyfer y cyfnod nesaf. Gallant ddefnyddio'r wybodaeth i fonitro cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn y ddau sector yn monitro safonau yn gyson drwy arsylwi a samplu gwaith disgyblion ac olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn cyrhaeddiad blaenorol. Pan fydd athrawon yn rhannu hyfforddiant mewn swydd, maent wedyn yn gallu datblygu dulliau addysgu cyffredin a rhannu adnoddau ar draws y cyfnodau allweddol. Mae disgyblion yn elwa o'r rhannu hwn am fod gan athrawon ddisgwyliadau uwch o'u perfformiad mewn Cymraeg fel ail iaith o ganlyniad i hyn.

### 4.1.7 Cymraeg fel ail iaith a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys y gofyniad cyffredinol y dylai disgyblion gael y cyfle, lle y bo'n briodol, i ddatblygu a defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth. Defnyddir y term technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i olygu ystod yr offer a'r technegau (telegyfathrebu, rhwydweithio, caledwedd a meddalwedd) y gellir eu defnyddio i gefnogi addysgu a dysgu. Mae athrawon Cymraeg fel ail iaith yn gyffredinol hyderus wrth ddefnyddio technoleg fel casetiau a fideos. Mae datblygu'r Gymraeg drwy ddefnyddio technoleg newydd yn ymestyn y defnydd presennol o dechnoleg gan athrawon i helpu dysgwyr i ddeall ac efelychu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.

## Datblygu medrau dysgu disgyblion

Mae technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn cynnig llawer o fanteision i ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg. Mae'n hybu hunanhyder a chymhelliant y disgyblion. Gall gymell disgyblion i wneud ymchwil annibynnol ac mae'n cynnig y cyfle i ddisgyblion chwarae rhan weithredol yn y broses ddysgu. Mae technoleg gwybodaeth a chyfathrebu hefyd yn cynorthwyo disgyblion o ran cyfathrebu â disgyblion mewn ardaloedd eraill o Gymru ar ffurf e-bost neu fideo gynadledda. Mae disgyblion yn datblygu medrau darllen drwy ddefnyddio adnoddau Cymraeg ar y we. Mae defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn datblygu medrau datrys problemau ac yn galluogi disgyblion i fod yn ddysgwyr effeithiol a hyderus yn ogystal ag ymestyn eu medrau technoleg gwybodaeth.

Gall technoleg gwybodaeth a chyfathrebu roi cymhelliant i ddisgyblion wella eu cyflwyniadau drwy ddefnyddio cyfleusterau fformatio a graffeg. Cynigir cyfleoedd i ddisgyblion gywiro gwallau drwy ddefnyddio meddalwedd prosesu geiriau ar gyfer ailddrafftio. Oherwydd y gall disgyblion benderfynu pa feddalwedd i'w ddefnyddio a sut i osod ac ailddrafftio eu gwaith, maent yn fwy gofalus a chywir ac yn ymfalchïo'n fwy yn eu gwaith.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos pa mor bwysig yw integreiddio'r defnydd o gyfrifiaduron yn y cynllun gwaith.

## Astudiaeth achos 10: Integreiddio'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn y cynllun gwaith Cymraeg

Mewn un ysgol uwchradd ym Mhowys, mae'r adran Gymraeg wedi cynllunio'n fanwl i integreiddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn gwersi Cymraeg fel ail iaith. Paratowyd cynllun datblygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer yr adran Gymraeg am gyfnod o ddwy flynedd. Mae'r cynllun yn ategu'r cynllun gwaith ar gyfer Cymraeg fel ail iaith. Cafodd anghenion athrawon, hyfforddiant mewn swydd, adnoddau a chyfrifoldebau yn yr adran eu hystyried yn y cynllun. Tua'r un pryd, adolygwyd polisi a chynllun gwaith yr adran er mwyn sicrhau bod technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn elfen gref yn y rhain. Bydd yr adran yn monitro ac yn arfarnu'r cynllun datblygu drwy ofyn y cwestiynau canlynol:

- a yw defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi cyfrannu at wella dysgu, addysgu a chodi safonau?
- pa gyfleoedd y mae'r adran yn eu cynnig ar gyfer defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn gwersi?
- sut mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion wedi datblygu? a
- sut mae technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn gwella dysgu ac addysgu?

Mae integreiddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng ngwaith yr adran wedi codi lefelau cymhelliant disgyblion ac maent yn cynhyrchu amrywiaeth o waith ysgrifenedig i safon uchel ar ffurf posteri, pamffledi a thaflenni gwybodaeth.

## Cynhaliaeth athrawon bro

Mae llawer o'r gwasanaethau athrawon bro ledled Cymru yn cefnogi athrawon cynradd o ran datblygu deunyddiau technoleg gwybodaeth a chyf athrebu ar gyfer Cymraeg fel ail iaith. Mae sawl gweithgor wedi cael ei sefydlu. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau athrawon bro, cydlynwyr technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac athrawon Cymraeg ail iaith ac ymgynghorol. Mae'r grwpiau yn cyn hyrchu deunyddiau amrywiol ar gyfer tasgau llafar, darllen ac ysgrifennu. Mae amrywiaeth o raglenni cyfrifiadurol wedi cael eu datblygu er mwyn cynhyrchu adnoddau dysgu defnyddiol a gemau iaith cyffrous.

Yn AALlau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, mae athrawon bro yn cydweithredu ag athrawon cynradd i helpu disgyblion i ddefnyddio cyfrifiaduron i gyflawni dilyniant mewn Cymraeg. Caiff y ffordd y maent yn gwneud hyn ei amlygu yn yr astudiaeth achos o waith y disgyblion a ganlyn.

### Astudiaeth achos 11: Defnyddio e-bost i hyrwyddo dilyniant

Cafodd holl ddisgyblion Blwyddyn 6 yn nalgylch yr ysgol uwchradd eu gwahodd i greu nifer o straeon ar ffurf e-bost. Ysgrifennodd disgyblion mewn un ysgol y frawddeg agoriadol ac anfonwyd y frawddeg honno i'r ysgol nesaf. Yna creodd yr ysgol nesaf frawddeg ac anfonwyd y ddwy frawddeg i'r ysgol nesaf. Pan gwblhawyd y straeon hyn, fe'u hanfonwyd i'r ysgol uwchradd ar ffurf e-bost, lle mae disgyblion yn cael eu defnyddio fel man cychwyn ar gyfer Cymraeg ym Mlwyddyn 7.

Mae hon yn ffordd o wella ansawdd ac effeithiolrwydd dilyniant rhwng y cyfnodau allweddol. Mae'n cymell y disgyblion ac yn hyrwyddo medrau darllen ac ysgrifennu. Oherwydd eu bod oll wedi cyfrannu maent yn dilyn cynnydd y straeon gyda diddordeb ac yn mwynhau eu holrhain ym Mlwyddyn 7.

Yn AALlau Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen, mae'r gwasanaeth athrawon bro wedi creu CD-ROM o'u holl gynlluniau gwaith a'u cynlluniau gwersi unigol o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6, a ddosberthir i bob ysgol gynradd yn yr ardal. Mae'r cynlluniau gwaith a'r cynlluniau gwersi unigol, a'r adnoddau cysylltiedig, yn hynod ddefnyddiol i athrawon sydd â gafael cyfyngedig ar y Gymraeg.

Mae AALl Sir Benfro wedi creu ffeil a CD-ROM ar gyfer 'Pecyn Pontio', sy'n cynnwys gweithgareddau defnyddiol mewn amrywiaeth dda o genres i adolygu geirfa, ffurfiau berfol a chystrawen yn y Gymraeg. Mae'r un AALl wedi creu pecynnau addysgu a CD-ROMau ar themâu fel **Y Dref** a **Teimladau** er mwyn cynorthwyo athrawon sydd heb fawr o Gymraeg i gyflwyno'r Gymraeg i'w disgyblion.

## Y bwrdd gwyn rhyngweithiol

Gall y bwrdd gwyn rhyngweithiol fod yn ffordd dda o adolygu neu gyflwyno gweithgareddau Cymraeg fel ail iaith. Mae nifer o AALlau ac athrawon unigol wedi paratoi deunyddiau dysgu ar gyfer y bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Mae’r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn fwyaf effeithiol pan fydd disgyblion yn astudio testun yn fanwl ac yna’n tanlinellu’r berfau, yr enwau neu’r ansoddeiriau. Yna mae’r athro yn gwirio’r testun ac yn trafod y gwallau gyda hwy.

Gall y disgyblion gwblhau ymarferion cydweddu drwy integreiddio neu aildrefnu brawddegau. Gall y disgyblion ragweld diwedd brawddegau yn ôl cliwiau sydd ynddynt. Gallant aildrefnu stori syml ar y sgrîn. Strategaeth ddefnyddiol arall a ddefnyddir i addysgu gramadeg yw lliwio diwedd berfau neu unrhyw agwedd ramadegol arall ar y testun drwy ddefnyddio peniau aroleuo neu bensiliau lliw. Gellir defnyddio’r bwrdd gwyn rhyngweithiol hefyd i newid brawddeg o’r amser presennol i’r amser gorffennol.

Mae defnyddio’r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn cynnig nifer o fanteision i athrawon, yn enwedig gan ei fod yn cymell disgyblion i chwarae rhan weithredol yn y wers. Mae’n galluogi’r broses ysgrifennu i gael ei gweld a’i rhannu gan bawb yn ogystal â chynnig cyfle i weld testun yn cael ei ddatblygu gam wrth gam. Mae hefyd yn helpu disgyblion i ddeall y ffordd yr adeiladir brawddegau. Mae defnyddio’r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn cynorthwyo disgyblion yn y broses ddrafftio drwy gynnig syniadau ar sut i wella’r testun, sydd yn fantais fawr i ddysgwyr cinesthetig. Mae’r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn ffordd o newid testun ar y sgrîn yn gyflym i ysgogi trafodaeth ac mae’n sicrhau y gall disgyblion chwarae rhan weithredol yn y wers.

Mewn llawer o ysgolion cynradd mae athrawon yn defnyddio technolegau newydd fel rhan greiddiol o’r addysgu a’r dysgu mewn gwersi Cymraeg. Mae’r astudiaeth achos isod yn dangos sut y mae athro yn gwneud defnydd da o’r bwrdd gwyn rhyngweithiol i helpu disgyblion i wneud cynnydd.

### Astudiaeth achos 12: Defnyddio’r bwrdd gwyn rhyngweithiol i hyrwyddo dilyniant

Nod gwers Blwyddyn 4 mewn un ysgol yng Nghasnewydd oedd i gael disgyblion i ddarllen, deall ac ysgrifennu deialog mewn perthynas â gwrthrychau a ganfyddir yn yr ystafell ddosbarth.

Yn y wers flaenorol, roedd yr athrawes wedi cyflwyno’r patrymau iaith a’r eirfa berthnasol i’r disgyblion. Yn y wers hon, mae’r athrawes yn treulio rhywfaint o amser yn adolygu’r rhain drwy ‘dechneg ddrilio’ gan ddefnyddio cardiau fflach. Yna, mae hi’n diwygio sgwrs osod er mwyn cyflwyno model i’r disgyblion. Rhoddir y cyfle i ddisgyblion ddarllen y sgwrs gyda’i gilydd, chwarae gwahanol rannau a newid elfennau o’r sgwrs. Yna mae’r athro’n rhannu’r dosbarth yn grwpiau, yn seiliedig ar allu, i wneud gwahanol dasgau, gan gynnwys rhai ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Mae’r tasgau’n cynnwys:

- cydweddu geiriau a lluniau;
- rhoi sgwrs mewn trefn;
- llenwi'r bylchau mewn sgwrs;
- gwrando ar sgwrs ar dâp; a
- dilyn y sgript mewn print, cydweddu swigod siarad gyda lluniau mewn llyfr.

Mae'r tasgau heriol ar gyfer disgyblion yn cynnwys cofnodi sgwrs ac ysgrifennu eu sgyrsiau eu hunain, gan ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol. Mae'r athro yn ymweld â grwpiau gwahanol i'w hysgogi a'u helpu. Ar ddiwedd y wers, mae'r grwpiau yn rhannu eu gwaith gyda gweddill y dosbarth, ac yn cymharu eu sgyrsiau gyda'r sgwrs wreiddiol.

Mae'r athrawes, sydd wedi dysgu Cymraeg ei hun yng nghyrsiau 'Cymraeg ar gyfer athrawon' yr AALl, yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd drwy gydol y wers. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddefnydd a dealltwriaeth y disgyblion o'r Gymraeg.

Hefyd, mae defnyddio technoleg gwybodaeth yn y gweithgareddau grŵp yn helpu i:

- ennyn diddordeb y disgyblion;
- cymell y disgyblion, yn enwedig y bechgyn;
- gwella medrau sillafu ac atalnodi'r disgyblion; a
- mireinio medrau allweddol y disgyblion mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos gweithgaredd sydd ond yn bosibl oherwydd y defnydd o fwrdd gwyn rhyngweithiol.

### Astudiaeth achos 13: Defnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol i hyrwyddo medrau llafar ac ysgrifennu

Mewn un ysgol gynradd yn AALl Casnewydd, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn paratoi rhagolygon tywydd i ddatblygu geirfa a medrau ysgrifennu.

Yn gyntaf, mae'r athro yn adolygu'r eirfa briodol ar gyfer y tywydd gyda'r disgyblion, ac yna'n cyflwyno map o Gymru gyda'r termau gogledd, de, gorllewin a dwyrain drwy ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol. Yna, mae'r athro yn dangos clip fideo o ragolygon y tywydd y noson flaenorol. Paratoir tair sgript syml o'r rhagolygon, wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer anghenion y disgyblion yn y dosbarth.

Yna, gofynnir i’r disgyblion weithio mewn parau i greu eu sgriptiau eu hunain. Ar ôl paratoi’r sgriptiau, gofynnir i nifer o barau berfformio’r sgript gan ddefnyddio’r bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Mae integreiddio’r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn y wers Gymraeg yn hybu cymhelliant a brwdfrydedd y disgyblion i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gyfathrebu â chynulleidfa yn Gymraeg.

Mae llawer o raglenni cyfrifiadurol i’w defnyddio i addysgu Cymraeg fel ail iaith wedi cael eu creu ar gyfer y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Mae’r astudiaeth achos isod yn amlinellu sut mae ysgol gynradd yn gwneud defnydd da o CD ROM rhyngweithiol.

### Astudiaeth achos 14: Defnyddio’r bwrdd gwyn rhyngweithiol i adolygu a dysgu geirfa

Mae AALl Sir Benfro wedi datblygu cyfres o CD ROMau y gellir eu defnyddio ar fyrddau gwyn rhyngweithiol yn ysgolion cynradd y sir. Mae’r athrawon a’r disgyblion yn defnyddio gweithgareddau ar y CD ROMau i adolygu ac atgyfnerthu geirfa a gyflwynwyd yn flaenorol.

Yn **Y Dref**, dangosir clipiau fideo o ddisgyblion yn crwydro o amgylch trefi glan y môr gan siarad â chamera. Caiff yr iaith ar y ffilm ei hailadrodd ar ffurf cyfres o ymadroddion ar y sgrîn a thasg y disgyblion yw trefnu’r geiriau i greu sgwrs go iawn. Caiff y disgyblion gymorth wrth iddynt ddethol y geiriau a’u rhoi mewn trefn, gan fod gan bob gair sŵn fel cliw ychwanegol i hyrwyddo darllen a dealltwriaeth. Os yw’r disgyblion yn llwyddo i roi’r geiriau yn y drefn gywir, mae’r rhaglen yn creu’r sgwrs lawn.

Mae’r CD ROMau hyn yn rhyngweithiol ac yn hyrwyddo chwarae rôl mewn ffordd anarferol, gan fod y disgyblion yn cyfathrebu ar y clipiau fideo yn uniongyrchol â’r dosbarth, gan holi ac ateb cwestiynau. Mae’r dull hwn hefyd yn datblygu medrau gwylio, gwrando a deall y disgyblion ac yn dangos sut y datblygir sgwrs cam wrth gam. Mae disgyblion wrth eu boddau yn ymarfer Cymraeg drwy ddefnyddio’r dechnoleg hon ac maent yn awyddus i gymryd rhan ym mhob agwedd ar y wers.

Mae rhai ysgolion yn defnyddio byrddau gwyn rhyngweithiol a thaflunwyr data. O ganlyniad, mae disgyblion yn cyfathrebu gyda’i gilydd a’u hathro yn dda yn ystod gwersi, ac maent hefyd yn dysgu defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn annibynnol er mwyn gwella’u gwaith.

# 5. Rheoli gwelliant

## 5.1 Monitro ac arfarnu effeithiol

Mae gan gydlynwyr ysgolion cynradd a phenaethiaid adrannau Cymraeg ysgolion uwchradd rôl bwysig i'w chwarae o ran monitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu a'r safonau gwaith mewn Cymraeg fel ail iaith. Mae'r math gorau o fonitro yn defnyddio arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth i arfarnu'r hyn sy'n mynd yn dda ac yn nodi'r rhesymau am hyn. Mae hefyd yn canolbwyntio ar sut i hyrwyddo dilyniant effeithiol o gyfnodau allweddol 2 a 3.

Fel cam cyntaf, mae hunanarfarnu cadarn yn edrych ar safonau gan ofyn:

- a yw'r disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig ar draws y cyfnod allweddol?
- a oes amrywiaeth ym mherfformiad gwahanol grwpiau o ddisgyblion? e.e. bechgyn a merched
- beth oedd cyrhaeddiad blaenorol y disgyblion ar ddechrau'r cyfnod allweddol? a
- pha wybodaeth sydd ar gael am ganlyniadau profion anstatudol, arholiadau ac asesiadau athrawon?

Mewn rhai rhannau o Gymru, mae athrawon bro yn chwarae rôl bwysig, nid yn unig wrth fonitro safonau Cymraeg yn y sector cynradd ond drwy sicrhau cysondeb wrth fonitro safonau mewn ysgolion unigol ac mewn ysgolion gwahanol.

Isod ceir enghraifft o arfer dda o ran hyn**.**

### Astudiaeth achos 15: Cysondeb wrth fonitro safonau Cymraeg

Yn AALlau Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen, mae'r athrawes fro a'r cydlynydd Cymraeg fel ail iaith yn trefnu dyddiad penodol ar gyfer monitro safonau Cymraeg mewn ysgolion. Trefnir cyfarfod gyda staff ymlaen llaw i esbonio'r ffordd y caiff y pwnc ei fonitro yn ystod eu hymweliad.

Mae'r athrawes fro a'r cydlynydd Cymraeg fel ail iaith yn llunio amserlen i ymweld â phob dosbarth yn yr ysgol ar gyfer sesiwn addysgu. Mae hyn yn amrywio o 10 i 30 munud yn unol ag oedran y disgyblion. Mae'r athrawes fro a'r cydlynydd Cymraeg fel ail iaith fel arfer yn ymuno â'r dosbarth i arsylwi'r wers. Os ceir cyfle, maent yn rhoi'r canfyddiadau cychwynnol fel adborth i'r athro ar unwaith ar ôl y wers.

Ar ddiwedd y dydd, mae'r athrawes fro a'r cydlynydd yn ysgrifennu adroddiad cryno ar ganfyddiadau'r ymweliad, gan nodi cryfderau a meysydd sydd angen sylw pellach. Maent hefyd yn rhoi adborth ar y canfyddiadau i'r pennaeth ac yna i'r ysgol gyfan mewn cyfarfod staff. Bydd yr adroddiad hwn yn rhan o sylfaen cynllun gweithredu i'w weithredu dros y flwyddyn nesaf.

### 5.1.1 Strategaethau monitro a gwella effeithiol

Mae cydlynwyr a phenaethiaid adran Cymraeg effeithiol yn cynnig trosolwg dda ar yr addysg a gynigir. Maent yn arsylwi gweithgareddau mewn Cymraeg fel iaith ar draws yr ysgol gyfan. Maent yn edrych ar y ffordd y gweithredir polisïau Cymraeg fel ail iaith o ran cysondeb a'r canlyniadau o ran safonau. Mae cydlynwyr cynradd a phenaethiaid adran yn cyfranogi mewn addysgu ar y cyd yn ogystal ag arsylwi gwersi. Gallant nodi anghenion o ran adnoddau neu hyfforddiant mewn swydd a phenderfynu a yw'r adnoddau sydd ar gael yn yr ystafell ddosbarth yn briodol o ran y gwaith a gynllunnir ai peidio, gan gynnwys defnyddio amser. Dyrennir amser iddynt i ysgrifennu adroddiad cryno sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Yna caiff hwn ei anfon at y staff a'r pennaeth a'i drafod mewn cyfarfod staff. Maent yn paratoi cyflwyniadau ffurfiol o'u canfyddiadau i'w cyflwyno i'r llywodraethwyr.

Mae edrych ar waith disgyblion yn weithgaredd bwysig ar gyfer arweinydd pwnc neu bennaeth adran wrth fonitro. Mae rhai o'r dulliau mwyaf llwyddiannus o arfarnu yn cynnwys edrych ar waith disgyblion o wahanol alluoedd ar draws blynyddoedd a chyfnodau allweddol er mwyn nodi safonau a graddau'r dilyniant a pharhad.

### 5.1.2 Arsylwi yn y dosbarth

Mae'r gwelliannau mwyaf effeithiol mewn addysgu a dysgu Cymraeg fel ail iaith wedi digwydd wrth i athrawon cynradd ac uwchradd arsylwi dulliau addysgu a gwaith disgyblion yn nosbarthiadau ei gilydd, ac o ganlyniad maent wedi cael gwell dealltwriaeth.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer o athrawon Cymraeg uwchradd wedi arsylwi gwersi mewn ysgolion cynradd. Fel canlyniad uniongyrchol i'r arsylwi hwn, maent bellach yn fwy ymwybodol o safonau cyflawniad disgyblion, ac maent yn gwybod mwy am y ffordd yr addysgir y pynciau a'r medrau yng nghyfnod allweddol 2. Yn gyffredinol, mae rhy ychydig o gyfleoedd gan athrawon cynradd ar hyn o bryd i arsylwi eu cyn-ddisgyblion mewn dosbarthiadau cyfnod allweddol 3, er mwyn iddynt fod yn fwy ymwybodol o'r ffordd y gallant baratoi disgyblion Blwyddyn 6 yn well ar gyfer cyfnod allweddol 3.

# 6. Canfyddiadau arolygiadau Adran 10 Estyn ar safonau ac ansawdd yn ystod y tair blynedd diwethaf

## Safonau cyflawniad: 2000-2003

Er bod ambell enghraifft o arfer dda iawn fel a amlinellir uchod, mae safonau cyflawniad mewn Cymraeg ail iaith yn waeth nag unrhyw bwnc arall.

Mae adroddiadau arolygiad Estyn dros y tair blynedd diwethaf yn dangos ar y cyfan bod gan Gymraeg fel ail iaith safonau cyflawniad gwaeth nag unrhyw bwnc arall yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Y canran o safonau cyflawniad da iawn hefyd yw'r canran isaf o unrhyw bwnc yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Mae'r tabl isod yn nodi canfyddiadau Estyn ar safonau cyflawniad mewn Cymraeg fel ail iaith.

**Tabl 1: Y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 rhwng 2000 a 2003 yn ôl y canran o ddosbarthiadau**

| | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4/5 |
|---|---|---|---|---|
| **CA2** | | | | |
| 2002-2003 | 2 | 41 | 55 | 3 |
| 2001-2002 | 3 | 38 | 51 | 9 |
| 2000-2001 | 2 | 42 | 46 | 11 |
| **CA3** | | | | |
| 2002-2003 | 3 | 57 | 36 | 5 |
| 2001-2002 | 4 | 41 | 45 | 9 |
| 2000-2001 | 3 | 34 | 51 | 12 |

Gradd 1: Da iawn
Gradd 2: Da
Gradd 3: Boddhaol
Gradd 4/5: Anfoddhaol neu wael

(Lle mae'r ffigyrau wedi'u talgrynnu, gall fod gwahaniaeth rhwng cyfanswm yr eitemau cyfansawdd a'r cyfanswm a ddangosir)

## Cyfnod allweddol 2

Bu cynnydd cyson yng nghyfran y safonau boddhaol a da a gyflawnwyd dros y tair blynedd diwethaf. Mae wedi cynyddu o 90% yn 2001 i 98% yn 2003. Mae safonau cyflawniad da iawn yn brin. Serch hynny, mae cyfran y safonau cyflawniad anfoddhaol neu wael wedi gostwng o 11% yn 2000-2001 i 3% yn 2002-2003.

Ar y cyfan, nid yw safonau cyflawniad ym Mlynyddoedd 5 a 6 gystal ag ydynt ym Mlynyddoedd 3 a 4.

## Cyfnod allweddol 3

Mae cyfran y safonau cyflawniad boddhaol neu'n well wedi codi o 88% yn 2001 i 95% yn 2003. Bu cynnydd sylweddol o 16% mewn safonau da yn 2002-2003, ond mae cyfran y safonau cyflawniad sy'n dda iawn yn isel, sef 3%. Nid yw hyn wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf. Mae gan Gymraeg fel ail iaith y canran isaf o ddosbarthiadau â safonau cyflawniad da iawn o bob pwnc yng nghyfnod allweddol 3.

Gan edrych ar safonau cyflawniad fesul blwyddyn ysgol yng nghyfnod allweddol 3, mae'n amlwg y bu rhywfaint o gynnydd mewn safonau cyflawniad da ym Mlwyddyn 7 yn 2002-2003 ond ni fu fawr o gynnydd mewn safonau cyflawniad da iawn mewn unrhyw flwyddyn yng nghyfnod allweddol 3.

## Addysgu

Lle mae'r addysgu'n dda neu'n dda iawn (mewn tua 52% o ddosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 2 a 62% o ddosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 3), dengys tystiolaeth arolygu Estyn yn 2002-2003 fod nodweddion penodol yn gyffredin yn y ddau gyfnod allweddol. Dyma'r nodweddion:

- cynlluniau gwersi sy'n seiliedig ar nodau ac amcanion ieithyddol clir;
- rhoddir amser digonol i ymarfer patrymau a geirfa newydd yn drylwyr;
- rhoddir pwyslais rheolaidd ar ymestyn ymatebion disgyblion;
- cynigir amrywiaeth o weithgareddau ysgogol;
- rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn rhyngweithio llafar drwy chwarae rôl, gwaith pâr a gwaith grŵp;
- mae gan ddisgyblion gyfleoedd i ddefnyddio a chymhwyso'r iaith a ddysgir mewn sefyllfaoedd newydd;
- rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wella eu medrau darllen ac ysgrifennu; a
- defnyddir Cymraeg fel yr iaith gyfarwyddyd a chyfathrebu cyffredinol yn y dosbarth y tu allan i gyfnodau a ddyrannwyd i addysgu Cymraeg fel pwnc.

Mae athrawon hefyd yn asesu ac yn cofnodi cynnydd eu disgyblion yn rheolaidd yn y tri maes medrau iaith ac yn defnyddio asesiadau i gynllunio gwaith dilynol. Yn yr enghreifftiau gorau, gwneir defnydd da o asesiadau disgyblion i wella pontio rhwng cyfnodau 2 a 3.

Lle mae'r addysgu'n anfoddhaol neu'n foddhaol yn unig – mewn 48% o ddosbarthiadau CA2 a 38% o ddosbarthiadau yn CA3 – mae'r un diffygion yn gyffredin yn y ddau gyfnod allweddol. Dyma'r diffygion:

- disgwyliadau isel;
- methu â chynnig her ar lefel briodol i ddisgyblion o alluoedd gwahanol; a
- cholli cyfleoedd i ddisgyblion feistroli patrymau a geirfa newydd a'u cymhwyso at wahanol ddibenion.

Yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig ym Mlynyddoedd 5 a 6, mae nifer fawr o athrawon yn ddysgwyr Cymraeg eu hunain, ac mae hyn yn aml yn cyfyngu ar yr her y gallant ei chynnig. O ganlyniad, mae eu disgwyliadau o ddisgyblion yn llawer is, er gwaethaf ymdrechion gorau'r athrawon hyn.

Mae disgwyliadau isel yn rhwystr cyffredin i gynnydd disgyblion ar ddechrau cyfnod allweddol 3. Yn rhy aml, wrth gynllunio eu cynlluniau gwaith, nid yw athrawon yn ystyried cyflawniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, a cheir tuedd mewn llawer o ysgolion i ddechrau ar fan cychwyn sy'n rhy isel gyda'r holl ddisgyblion ym Mlwyddyn 7, hyd yn oed pan fydd gan lawer ohonynt afael foddhaol neu dda ar Gymraeg sylfaenol.

## Gallu athrawon wrth gyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Nododd Arfer Dda SPAEM – Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2 1998:

> *'Mae gan gyfran sylweddol o'r athrawon sy'n addysg Cymraeg wybodaeth gyfyngedig yn unig o'r iaith. Mae llawer ohonynt naill ai wedi mynychu neu yn mynychu cyrsiau i ddysgu'r iaith neu wella eu gafael arni, ac maent wedi cael hyfforddiant ar y dulliau o addysgu'r iaith.'*

Mae'r sefyllfa hon yn dal i fod yn wir mewn awdurdodau yn ardaloedd Seisnigedig Cymru lle mae gan gyfran sylweddol o athrawon sy'n addysgu yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 wybodaeth gyfyngedig o'r Gymraeg. Mae'r athrawon hyn hefyd wedi cael hyfforddiant mewn methodoleg addysgu iaith a drefnwyd gan yr Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau). Fodd bynnag, mae hyd a dwyster y cyrsiau hyn yn amrywio o un AALl i'r llall, ac mae hyn yn ei dro yn effeithio ar arbenigedd athrawon. Mae diffyg arbenigedd athrawon yn fwyaf amlwg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Yn aml mae gan ysgolion ddiffyg athrawon Cymraeg arbenigol ym Mlynyddoedd 5 a 6 i alluogi disgyblion i gyflawni eu llawn botensial yn y pwnc.

Gan amlaf, caiff Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgolion uwchradd ei addysgu gan athrawon sy'n arbenigo mewn pynciau. Serch hynny mae gormod o athrawon nad ydynt yn rhai arbenigol yn addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn llawer o ysgolion ledled Cymru.

# 7. Y nodweddion da a'r diffygion mewn safonau cyflawniad mewn Cymraeg fel ail iaith

Mae'r adran hon yn nodi'r nodweddion da a'r diffygion a welwyd mewn adroddiad Cymraeg fel ail iaith Adran 10 Estyn rhwng 2001 a 2003.

## Cyfnod Allweddol 2

Mewn tua 43% o ddosbarthiadau, mae safonau cyflawniad yn dda neu'n dda iawn.

Lle mae safonau **llafar** yn dda neu'n dda iawn, mae'r disgyblion yn gwrando'n astud ar ystod gynyddol o ymadroddion cymhleth. Maent yn siarad yn hyderus gan ynganu a goslefu'n dda. Mae'r disgyblion yn cynyddu ystod eu geirfa a phatrymau brawddegol a gallant eu cymhwyso'n effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau drwy gydol y cyfnod allweddol. Hefyd gallant ddechrau sgwrs a chynnal sgwrs yn fwyfwy. Gall y disgyblion hefyd chwarae rôl yn effeithiol.

Lle mae safonau **darllen** yn dda neu'n dda iawn, gall y disgyblion ddarllen testunau syml yn annibynnol ac yn gywir, gan ddefnyddio goslef gywir i gyfleu ystyr. Gallant ddarllen eu gwaith eu hunain yn gywir a darllen testunau anghyfarwydd yn hyderus. Mae'r disgyblion yn dilyn ac yn deall ystyr cyffredinol paragraffau. Mae'r disgyblion hefyd yn defnyddio geiriaduron yn dda ac yn gyson.

Lle mae safonau **ysgrifennu** yn dda neu'n dda iawn, gall y disgyblion ysgrifennu mewn paragraffau, drwy ychwanegu at y modelau a ddarperir ar eu cyfer a'u haddasu, gan ddefnyddio geirfa a phatrymau cyfarwydd. Gallant ysgrifennu'n darnau estynedig o waith da, drwy ddefnyddio a chymhwyso geirfa a phatrymau y maent wedi'u dysgu ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn defnyddio'u medrau'n dda i gofnodi eu gwaith mewn pynciau eraill, fel hanes neu ddaearyddiaeth. Gallant ysgrifennu mewn ystod gynyddol o arddulliau, gan gynnwys sgyrsiau, paragraffau sy'n cynnwys gwybodaeth ffeithiol a darnau disgrifiadol byr. Gall y disgyblion ddefnyddio cyfrifiaduron i ailddrafftio a chywiro eu gwaith.

Mewn tua 57% o ddosbarthiadau, mae'r safonau cyflawniad ac ansawdd y ddarpariaeth yn anfoddhaol neu'n foddhaol yn unig.

Lle mae safonau **llafar** yn anfoddhaol, mae gafael ansicr y disgyblion ar gystrawen a geirfa sylfaenol, yn amharu ar eu gallu i fynegi'u hunain. Mae'r disgyblion yn ymateb mewn ffyrdd cyfyng. Ni allant wneud arsylwadau estynedig mewn sgyrsiau neu drafodaethau. Hefyd mae ynganiad a goslef y disgyblion wan.

Lle mae safonau **darllen** yn anfoddhaol, mae'r disgyblion yn darllen yn araf a heb fynegiant. Ni allant ddarllen yn eglur a chydag ystyr. Caiff y disgyblion anhawster hefyd yn darllen testunau cyfan heb gymorth.

Lle mae safonau **ysgrifennu** yn anfoddhaol, mae'r disgyblion yn gwneud gormod o waith copïo ac ymarferion iaith cyfyngedig. Ni all y disgyblion ysgrifennu darnau estynedig.

## Cyfnod allweddol 3

Mewn tua 60% o ddosbarthiadau, mae safonau cyflawniad yn dda neu'n dda iawn.

Lle mae safonau **llafar** yn dda neu'n dda iawn, mae'r disgyblion yn gwrando'n dda ac yn ymestyn eu dealltwriaeth o eirfa a chystrawen. Maent yn ynganu a goslefu'n dda ac yn siarad ar gyflymder naturiol. Gall y disgyblion wneud datganiadau digymell ac ateb a holi cwestiynau. Hefyd gallant gyfranogi'n effeithiol mewn ystod o weithgareddau, gan gynnwys gwaith pâr a gwaith grŵp.

Lle mae safonau **darllen** yn dda neu'n dda iawn, mae'r disgyblion yn darllen yn wybodus gan ddefnyddio ynganiad a goslef briodol. Maent yn ymateb yn dda i dasgau darllen heriol, ac yn gynyddol ehangach i ystod o ddeunydd darllen. Mae'r disgyblion yn mwynhau darllen ystod o ddeunyddiau darllen yn annibynnol ac ar gyfer pleser.

Lle mae safonau **ysgrifennu** yn dda neu'n dda iawn, gall y disgyblion ysgrifennu paragraffau syml, ateb cwestiynau a chwblhau ymarferion strwythuredig yn weddol gywir. Dangosant gynnydd yn eu gallu i ysgrifennu darnau estynedig, drwy amrywio eu defnydd o batrymau a geirfa a chynnal lefel weddol o gywirdeb mewn ystod o bynciau. Gall y disgyblion hefyd ysgrifennu mewn amryw arddulliau fel sgyrsiau, paragraffau a cherddi achlysurol gyda hyder cynyddol.

Mewn tua 40% o ddosbarthiadau, mae'r safonau cyflawniad ac ansawdd y ddarpariaeth yn anfoddhaol neu'n foddhaol yn unig.

Lle mae safonau **llafar** yn anfoddhaol, caiff y disgyblion anhawster o ran gwrando'n astud, mae eu hynganiad yn ansicr, ac mae eu defnydd o batrymau ac ymatebion sylfaenol yn gwta ac yn wallus. Maent yn dibynnu'n fawr ar gynhaliaeth yr athrawon ac ar nodiadau a thaflenni wrth ymateb ar lafar.

Lle mae safonau **darllen** yn anfoddhaol, mae'r disgyblion yn cam-ynganu wrth ddarllen, ac yn darllen yn araf a heb fynegiant. Maent yn darllen ystod gul o ddeunyddiau yn unig. Nid yw'r disgyblion yn darllen ar gyfer pleser rhyw lawer.

Lle mae safonau **ysgrifennu** yn anfoddhaol, mae'r disgyblion yn ysgrifennu'n wallus o ran cystrawen a sillafu. Maent yn ysgrifennu darnau byr, ailadroddus gan gopïo eitemau iaith.

## 8. Sylwadau i gloi

Er y gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran addysgu a dysgu Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, mae cryn dipyn o waith angen ei wneud o hyd i wella'r deilliannau dysgu ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith. Byddai mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn chwarae rhan bwysig mewn sicrhau bod y pontio i ddisgyblion rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn annog disgyblion i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd diddorol a heriol.